



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

Dydd Iau, 1 Gorffennaf 2021 am 11.00 am

Yn Bresennol: Y Cyngorydd J W Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

P M Black

S M Jones

T J Hennegan

L James

Y Cyngorydd(wyr)

P Downing

S J Gallagher

C A Holley

M H Jones

W G Thomas

Y Cyngorydd(wyr)

E W Fitzgerald

D W Helliwell

P R Hood-Williams

P K Jones

T M White

Aelodau'r Cabinet

Robert Francis-Davies

Aelod y Cabinet dros
Fuddsoddi, Adfywio a
Thwristiaeth

Swyddog(ion)

Phil Holmes

Huw Mowbray

Emily Davies

Nick Parry

Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas

Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol

Swyddog Craffu

Swyddog Cyfathrebu a Marchnata

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Dim

9 Cadarnhau Cynullydd y Panel

Cadarnhaodd y Panel y Cyngorydd Jeff Jones fel Cynullydd y Panel Craffu Perfformiad Datblygu ac Adfywio.

10 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau

11 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau

12 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Ystyriodd y Panel gofnodion o gyfarfodydd blaenorol a chytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

13 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd

14 Adroddiad Diweddaraf am y Prosiect

Rhoddodd Huw Mowbray, Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel am y prosiectau adfywio yn Abertawe. Roedd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth, y Cynghorydd Robert Francis-Davies, a Phil Holmes, Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, hefyd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Canolbwyntiodd y prif drafodaethau ar y canlynol:

Bae Copr – Cam 1

- Rhywfaint o fân oedi, er ei fod yn mynd rhagddo'n dda gan ystyried yr oedi mewn cyflenwadau deunydd a llafur.
- Mae bloc preswyl yn cael ei osod yn llawn ac mae bron wedi'i gwblhau.
- Mae'r parcdir arfordirol/tirlunio'n datblygu'n dda cyn ychwanegu gwyrddni. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr ychwanegiadau chwarae â dŵr.
- Y Bont – mae gwaith terfynol yn cael ei wneud i'r llawr a'r rheiliau. Holodd yr Aelodau a ymgynghorwyd â grwpiau anfantais weledol? Cadarnhaodd swyddogion fod ymgynghoriadau wedi'u cynnal a byddai rheiliau tapio'n cael eu gosod i helpu i arwain defnyddwyr.
- Y Gwesty – Mae swyddogion yn edrych ar opsiynau i symud cyllid yn ei flaen. Holodd yr Aelodau a fyddai hyn yn cael ei wneud drwy gwmni yn y DU. Cadarnhaodd swyddogion mai brand enwog yw'r gweithredwr a ffefrir presennol, a chanddo gysylltiadau rhyngwladol. Mae swyddogion yn parhau i drafod opsiynau ar gyfer y cyllid gyda Croeso Cymru.
- Esboniodd swyddogion y byddai datblygiad y Gwesty yn cael ei adeiladu gyda mynediad ochr yn ochr â'r Arena, ar ôl cael ei gynllunio i ddarparu mynediad gwaith pan fo angen.
- Cydweithwyr yn y cyngor sy'n ymdrin ag agweddau gweithredol/cyllidebol ar gynnal safonau gwaith pensaernïol a thirlunio.
- Amlinellodd swyddogion fod prydlesu'n datblygu'n dda, y gwnaed cynigion ar gyfer yr holl unedau a bod swyddogion yn agos at gwblhau cytundebau cyfreithiol ar gyfer gweithredwr y Pafiliwn. Holodd yr Aelodau ai cwmnïau lleol fyddai'r rhain? Cadarnhaodd swyddogion mai busnesau lleol fyddai'n rheoli pob uned a osodir gan y cyngor, gan nad oedd y cyngor wedi targedu gweithredwyr cenedlaethol yn bwrpasol.
- Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y math o weithredwyr a fyddai'n prydlesu unedau. Cadarnhaodd swyddogion mai gweithredwyr bwyd/diodydd o'r ardal leol oeddent.
- Bydd y panel treftadaeth yn diogelu preswylwyr ardal y Marina.

- Mae ardaloedd â bylbiau LED dwysedd isel ac uchel, y gellir eu diffodd os oes angen.
- Holodd yr Aelodau ynghylch cynnal a chadw'r bylbiau LED a phwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw. Cadarnhaodd swyddogion fod hyn yn y cynllun busnes ac mai'r cyngor sy'n gyfrifol am reoli'r ffasâd allanol.

Gogledd Abertawe Ganolog:

- Mae Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth yn edrych ar ganolfannau, ar ôl nodi nifer o gyrff a all ddymuno eu meddiannu.
- Holodd yr Aelodau ble yn union y byddai'r ganolfan yn cael ei lleoli. Eglurodd swyddogion y byddai drws nesaf i'r maes parcio aml-lawr.
- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r swyddi'n rhai newydd neu a fyddant yn cael eu hadleoli. Esboniodd swyddogion y gall rhai swyddi symud, a byddai rhai yn gwbl newydd. Awgrymodd swyddogion y byddai hyn hefyd o fudd i Ganol y Ddinas drwy ddod â màs critigol o weithwyr i ganol y ddinas.

Wind Street

- Esboniodd swyddogion fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda masnachwyr allweddol, er nad oes presenoldeb da mewn cyfarfodydd yn gyffredinol, er gwaethaf ymdrechion gorau'r cyngor i ymgysylltu â masnachwyr.
- Mae'r rhan fwyaf o'r palmant wedi'i ail-osod/ddisodli.
- Mae angen gosod celfi stryd, ac mae'r elfennau tirlunio yn datblygu.
- Cytunwyd bellach ar gynllun croesawus o ran ardaloedd eistedd cyfagos, fel y cytunwyd rhwng grwpiau ymgynghori.
- Trafododd Aelodau'r defnydd o lwybrau gwybodaeth a chodau QR ledled yr ardal, fel ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol i ymwelwyr.

Adfywio Abertawe

- Derbyniwyd ac aseswyd ceisiadau, cyflwynir adroddiad i'r cabinet ar 15 Gorffennaf i amlinellu'r opsiynau a ffefrir.
- Cynhelir cyfarfod CADW â swyddogion yn fuan i drafod adeiladau rhestredig.
- Amlinellodd swyddogion 3 cham y broses ddeialog gystadleuol, gan gynnwys gwahoddiad i dendro, llunio rhestr fer, a gwahoddiad am dendr terfynol, ynghyd â mecanweithiau sgorio. Amlinellodd swyddogion fod y cyngor, drwy gydol y broses hon, yn pennu'r nodau a'r amcanion i ddarpar gynigwyr.
- Byddai unrhyw bartner datblygu a ffefrir yn ymwneud â nifer o wahanol safleoedd ledled Abertawe.

Ail-bwrpasu Abertawe

- I grynhoi, mae swyddogion yn llunio adroddiad ar gyfer y cabinet ym mis Medi.

Theatr y Palace

- Mae caniatâd cynllunio ac adeilad rhestredig ar waith.
- Cwmni ffilm yn debygol o gofnodi adfywiad Theatr y Palace.
- Aros am ddadansoddiad o geisiadau contractwyr.

Pwerdy ac Adeiladau Allanol

- Rhoddwyd estyniad amser o bythefnos. Mae dyddiad cwblhau mis Hydref yn parhau ar y trywydd iawn.
- Mae Cyfrif Banc Prosiectau (PBA) bellach ar waith.
- Mae hawddfreintiau nwy a dŵr yn cael eu datrys.
- Holodd yr Aelodau am amserlen gosod safle wisgi Penderyn.
- Mae'r cyngor wedi cyflwyno cais codi'r gwastad i Lywodraeth y DU - os bydd yn llwyddiannus, byddai rhywfaint o arian yn cael ei ddyrannu i'r prosiect hwn i'w helpu i symud ymlaen.

Safleoedd Strategol

- Skyline – yn cynnal trafodaethau o hyd. Mae swyddogion yn obeithiol y bydd cynnydd yn parhau ac yn gadarnhaol ynghylch rhagolygon.
- Felindre – Soniodd y Panel am farchnata'r safle yn y tymor hir. Esboniodd swyddogion fod ymholiadau hapfasnachol yn cael eu gwneud yn rheolaidd, ond mae swyddogion hefyd wedi ystyried opsiwn posib o brosiect adeiladu hapfasnachol ar gyfer y dyfodol.

Coridor Glannau'r Tawe

- Pont Wrthbwys – holodd yr aelodau ai grant oedd yn talu'r gost. Cadarnhaodd swyddogion y bu cynnydd mewn costau a bod trafodaeth yn parhau.

15 **Adolygiad Panel y Flwyddyn 2020-21 a Rhaglen Waith Ddrafft 2021-22**

Trafododd y Panel bynciau gwaith y flwyddyn flaenorol

16 **Llythyrau**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40

Cadeirydd